*CYNGOR BWRDEISTREF SIROL*
# *RHONDDA CYNON TAF*
**COUNTY BOROUGH COUNCIL**

**Bydd cyfarfod hybrid o'r CABINET yn cael ei gynnal yn ar Dydd Mawrth, 28ain Chwefror, 2023 am 11.30 am**

**Dolen gyswllt: Hannah Williams – Uned Busnes y Cyngor**
**(Rhif ffôn. 07385401954)**

**Os bydd cynghorwyr neu aelodau o'r cyhoedd yn dymuno cael cyfle i annerch y Cabinet am unrhyw fater ar yr agenda isod, rhaid iddyn nhw ofyn am gael gwneud hynny erbyn canol Dydd Gwener, 24 Chwefror 2023. Rhaid iddyn nhw hefyd gadarnhau ai yn y Gymraeg neu yn y Saesneg y byddan nhw'n annerch.**

**Nodwch mai'r Cadeirydd biau'r penderfyniad i ganiatáu'r cais am annerch y Cabinet. Bydd pob cais yn cael ei ystyried ar sail y materion sy'n cael eu trafod ar yr agenda, buddiant y cyhoedd/y Cynghorydd ynglŷn â phob mater, a'r gofynion o ran y materion sydd i'w trafod ar y diwrnod hwnnw. I wneud cais, anfonwch e-bost i UnedBusnesGweithredolaRheoleiddiol@rctcbc.gov.uk**

## MATERION I'W TRAFOD

### 1. DATGAN BUDDIANT

Derbyn datganiadau o fuddiannau personol gan Gynghorwyr, yn unol â gofynion Cod Ymddygiad y Cyngor.

Nodwch:

1. Mae gofyn i Aelodau ddatgan rhif a phwnc yr eitem y mae eu buddiant yn ymwneud ag ef a mynegi natur y buddiant personol hwnnw; a
2. Lle bo Aelodau'n ymneilltuo o'r cyfarfod o ganlyniad i ddatgelu buddiant sy'n rhagfarnu, rhaid iddyn nhw roi gwybod i'r Cadeirydd pan fyddan nhw'n gadael.

### 2. COFNODION

Cadarnhau cofnodion o gyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd ar 23 Ionawr 2023 yn rhai cywir.

**(Tudalennau 5 - 14)**

3. **CARTREFI GOFAL PRESWYL I BOBL HŶN**

Derbyn adroddiad Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol dros dro, sy'n rhoi cyfle i'r Cabinet drafod canlyniadau'r ymgynghoriad mewn perthynas â'r opsiynau a ffefrir ar gyfer dyfodol darpariaeth llety i bobl hŷn yng nghartrefi gofal preswyl y Cyngor.

**(Tudalennau 15 - 174)**

4. **STRATEGAETH TRAWSNEWID GWASANAETHAU PRESWYL Y GWASANAETHAU I BLANT**

Derbyn adroddiad Cyfarwyddwr dros dro Gwasanaethau Cymdeithasol, sy'n darparu'r Cabinet gyda Strategaeth Trawsnewid Gwasanaethau Preswyl Gwasanaethau Plant.

**(Tudalennau 175 - 212)**

5. **RHAGLEN WAITH Y CABINET**

Derbyn adroddiad y Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu, sy'n rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am Raglen Waith y Cabinet o ran y rhestr arfaethedig o faterion y mae angen i'r Cabinet eu hystyried yn ystod Blwyddyn 2022-23 y Cyngor.

**(Tudalennau 213 - 236)**

6. **TEITHIO AM DDIM AR FYSIAU LEDLED RHONDDA CYNON TAF YM MIS MAWRTH 2023**

Derbyn adroddiad Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Rheng Flaen sy'n gofyn i'r Cabinet gymeradwyo cynllun i ddarparu teithiau bws am ddim rhwng 1 a 31 Mawrth 2023. Byddai'r cynnig ar waith ar gyfer pob taith sy'n dechrau ac yn gorffen o fewn ffiniau Rhondda Cynon Taf. Byddai hyn yn berthnasol i bob cwmni sy'n darparu gwasanaethau bws ar yr amserlen gyfredol.

**(Tudalennau 237 - 242)**

7. **RHAGLEN CYMUNEDAU DYSGU CYNALIADWY - ENWI TAIR YSGOL NEWYDD YN ARDAL PONTYPRIDD**

Derbyn adroddiad y Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant, sy'n rhoi cyfle i'r Cabinet drafod argymhellion y cyrff llywodraethu dros dro perthnasol mewn perthynas ag enwi'r tair ysgol newydd yn ardal Pontypridd.

**(Tudalennau 243 - 252)**

8. **Y DIWEDDARAF AM Y CYNLLUNIAU RHYDDHAD ARDRETHI ANNOMESTIG AC AILBRISIO**

Derbyn adroddiad Dirprwy Brif Weithredwr a Chyfarwyddwr Cyfadran Gwasanaethau Cyllid, Digidol a Rheng Flaen, sy'n rhannu manylion Cynllun Rhyddhad Ardrethi Annomestig Llywodraeth Cymru - Byd Masnach, Hamdden a Lletygarwch ar gyfer 2023/24; manylion cynllun rhyddhad ardrethi busnes lleol arfaethedig; a manylion y Cynllun Ailbrisio Ardrethi Annomestig sy'n dod i rym ar 1 Ebrill 2023.

**(Tudalennau 253 - 262)**

**9. CYLLIDEB REFENIW'R CYNGOR AR GYFER 2023-2024**

Derbyn adroddiad Dirprwy Brif Weithredwr a Chyfarwyddwr Cyfadran Gwasanaethau Cyllid, Digidol a Rheng Flaen, sy'n cyflwyno canlyniadau ail gam yr ymgynghoriad ar y gyllideb a'r Strategaeth Gyllideb ddrafft y bydden nhw'n ei chyflwyno i'r Cyngor, a'i diwygio yn ôl yr angen.

**(Tudalennau 263 - 326)**

**10. RHAGLEN GYFALAF**

Derbyn adroddiad Dirprwy Brif Weithredwr a Chyfarwyddwr Cyfadran Gwasanaethau Cyllid, Digidol a Rheng Flaen, sy'n cyflwyno i'r Cabinet raglen gyfalaf dair blynedd arfaethedig ar gyfer 2023/24 hyd at 2025/26, a fydd yn cael ei chyflwyno i'r Cyngor i'w chymeradwyo, os yw'n dderbyniol.

**(Tudalennau 327 - 350)**

**11. MATERION BRYS**

Trafod unrhyw faterion brys y mae'r Cadeirydd yn eu gweld yn briodol.



**Cyfarwyddwr Gwasanaeth y Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu**

**Cylchrediad:-**

**Y Cynghorwyr:** Y Cynghorydd A Morgan (Cadeirydd)
Y Cynghorydd M Webber (Is-gadeirydd)
Y Cynghorydd G Caple
Y Cynghorydd A Crimmings
Y Cynghorydd R Lewis
Y Cynghorydd C Leyshon
Y Cynghorydd M Norris
Y Cynghorydd B Harris

**Swyddogion:** Paul Mee, Prif Weithredwr
Barrie Davies, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cyllid a Digidol
Andy Wilkins, Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol
David Powell, Cyfarwyddwr Materion Eiddo’r Cyngor
Gaynor Davies, Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant
Louise Davies, Cyfarwyddwr – Iechyd a Diogelwch y Cyhoedd, a Gwasanaethau’r Gymuned
Richard Evans, Cyfarwyddwr - Materion Adnoddau Dynol
Simon Gale, Cyfarwyddwr Materion Ffyniant a Datblygu
Roger Waters, Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau Rheng-flaen
Christian Hanagan, Cyfarwyddwr Gwasanaeth y Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu
Paul Griffiths, Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau Cyllid a Gwella
Derek James, Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Materion Ffyniant a Datblygu
Neil Elliott, Cyfarwyddwr Dros Dro'r Gwasanaethau Cymdeithasol